# Swyddog Cymunedol Prosiect SIARC | Project SIARC Community Officer

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with

Cronfa Treftadaeth

Heritage Fund

Mae hon yn ddogfen ddwyieithog, gweler tudalennau 3 – 14 am y Gymraeg a thudalennau 15 – 24 am y Saesneg.

Rydym yn annog yn gryf geisiadau o bob cefndir ac yn dathlu gwerth cael tîm o weithwyr sydd â sgiliau, profiadau a threftadaeth amrywiol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod ein timau yn gallu dod i'r gwaith heb ofni gwahaniaethu oherwydd eu hunaniaeth. Mae gan ZSL rwydweithiau cydraddoldeb gweithredol ar gyfer ein staff sydd â phrofiad byw a'r rhai sy'n gynghreiriaid gweithredol o ran Hil a Diwylliant, Balchder Tîm, Rhwydwaith Anabledd, a Rhwydwaith Menopos, wedi'u hategu gan ein Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant strategol.

Ein nod yw cyfweld ag ymgeiswyr 6 Awst 2026

---

This is a bilingual document, please see pages 3 – 14 for Welsh and pages 15 – 24 for English.

We strongly encourage applications from all backgrounds and celebrate the value of having a team of employees with diverse skills, experiences, and heritage. We are committed to ensuring our teams can bring their authentic selves to work without fear of discrimination. ZSL has active equality networks for our staff with lived experience and those who provide active allyship in Race and Culture, Team Pride, Disability Network, and Menopause Network, complemented by our strategic EDI Steering Group.

We aim to interview applicants 6 August

## Swyddog Cymunedol Prosiect SIARC

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lefel swydd** | Lefel Broffesiynol 1 (Fframwaith lefel 3) | **Adrodd i'r** | Arbenigwr ar degwch cymunedol, hawliau, a diogelwch cymdeithasol – Prosiect SIARC |
| **Cyfarwyddiaeth** | Cadwraeth a Pholisi (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) / Gwasanaeth Morol (Cyfoeth Naturiol Cymru) | **Swyddogaeth** Pholisi | Rhywogaethau a<br><br>Dyfrol (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) / Cyngor Morol Cymru Gyfan (Cyfoeth Naturiol |
| **Contract** | Llawn amser – Contract cyfnod penodol tan 31 Awst 2027 | **Lleoliad** | Cymru (gweithiwr gartref – wedi'i leoli yn ne Cymru<br>ac yn gweithio ar draws rhanbarth Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, bydd y rôl hon yn cael ei secondio o Gymdeithas Sŵolegol Llundain i |

## Cyfrifoldeb dros adnoddau

| | |
|---|---|
| **Yn atebol i'r swydd hon yn uniongyrchol** | Na |
| **Adnoddau ariannol** cyllidebau | Bydd deiliad y swydd yn cefnogi gweinyddiaeth<br><br>perthnasol o fewn Prosiect SIARC gan weithio gydag |
| **Cyfrifoldeb dros adnoddau eraill** | *Diogelu*<br>• Cefnogi'r gwaith o weithredu fframwaith FAIRER (teg, atebol, cynhwysol, parchus, moesegol, a myfyriol) Cymdeithas Sŵolegol Llundain (system rheoli amgylcheddol a chymdeithasol fewnol y gymdeithas) mewn cydweithrediad ag arbenigwr ar degwch cymunedol, hawliau, a diogelwch cymdeithasol Prosiect SIARC a Rheolwr Rhaglen FAIRER Cymdeithas Sŵolegol Llundain<br>• Hyrwyddo a chynnal safonau diogelu Cymdeithas Sŵolegol Llundain gyda phartneriaid yn y DU.<br><br>*Cyfrinachedd*<br>• Wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd hon, gall deiliad y swydd fod â mynediad at wybodaeth sensitif yn ymwneud<br>â'r prosiect. O ganlyniad, bydd yn ofynnol iddo gadw cyfrinachedd ar bob adeg<br><br>*Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)*<br>• Bydd y rôl hon yn trin data personol unigolion a |

## Ein gweledigaeth a'n cenhadaeth

Bydd y rôl hon yn cael ei chyflogi gan Gymdeithas Sŵolegol Llundain (ZSL) a'i secondio i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Bydd y rôl yn gweithio'n llawn amser ar Brosiect SIARC ac wedi'i lleoli yn rhanbarth Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Er y bydd y rôl hon wedi'i hymgorffori'n bennaf o fewn Prosiect SIARC, bydd deiliad y rôl hefyd yn gweithio o fewn tîm cadwraeth FAIRER byd-eang Cymdeithas Sŵolegol Llundain ochr yn ochr ag arbenigwr ar degwch cymunedol, hawliau, a diogelwch cymdeithasol Prosiect SIARC.

**Cymdeithas Sŵolegol Llundain (ZSL)**

Elusen gadwraeth ryngwladol a gaiff ei hysgogi gan wyddoniaeth yw Cymdeithas Sŵolegol Llundain, sy'n gweithio i adfer bywyd gwyllt yn y DU a ledled y byd.Ein gweledigaeth yw byd lle mae bywyd gwyllt yn ffynnu, ac mae gan bob rôl a phob unigolyn o fewn ZSL un peth yn gyffredin – rydym i gyd yn gadwraethwyr ac yn angerddol am adfer bywyd gwyllt.

**CNC**

Mae CNC yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Nod creiddiol CNC yw ceisio rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy a chydymffurfio â dyletswyddau statudol wrth wneud ei waith.

**Prosiect SIARC**

Mae Prosiect SIARC (Siarcod yn Ysbrydoli Gweithredu ac Ymchwil gyda Chymunedau) yn gweithio tuag at weledigaeth sef bod siarcod, morgathod, a chymunedau arfordirol amrywiol yn elwa o ymagwedd cynhwysol at gadwraeth a gwaith ymchwil morol yng Nghymru. Mae Prosiect SIARC yn cael ei arwain gan Gymdeithas Sŵolegol Llundain a Chyfoeth Naturiol Cymru, ac fe'i cwblheir mewn partneriaeth â phartneriaid cyflenwi,

cysylltiedigion a chydweithwyr. Gyda'n gilydd, rydym yn gweithio gyda chymunedau arfordirol ledled Cymru, gan gynnwys pysgotwyr masnachol a hamdden, dinasyddion wyddonwyr gwirfoddol, ysgolion cynradd, ac ymchwilwyr. Gan ddefnyddio arian a godir gan y rhai sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cefnogi prosiectau sy'n cysylltu unigolion a chymunedau â threftadaeth y DU. Mae Prosiect SIARC wedi'i wneud yn bosibl diolch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru.

**FAIRER (teg, atebol, cynhwysol, parchus, moesegol a myfyriol) Cymdeithas Sŵolegol Llundain**

Mae Cymdeithas Sŵolegol Llundain wedi ymrwymo i ddull tecach o ymdrin â gwaith cadwraeth drwy ei raglen gadwraeth FAIRER (teg, atebol, cynhwysol, parchus, moesegol a myfyriol). Mae'r fframwaith cadwraeth yn fersiwn newydd neu'n fodel amgen o system reoli amgylcheddol a chymdeithasol draddodiadol. Drwy'r rhaglen FAIRER, ein nod yw cyflawni effaith gadwraeth well wrth ddiogelu a chanoli'r cymunedau lleol, yr unigolion, a'r lleoedd rydym yn gweithio gyda nhw, ochr yn ochr â meithrin y gwerthoedd a'r myfyrdod sydd eu hangen i gyflawni dulliau FAIRER.

## Diben y rôl

Swydd cyfnod penodol yw hon tan 31 Awst 2027 a bydd yn cynnwys gweithio gyda sawl sector yn bennaf i ddeall yn well werthoedd a chanfyddiadau cymunedau yn rhanbarth Bae ac Aberoedd Caerfyrddin o ran yr amgylchedd morol (gan gynnwys rhywogaethau siarcod a morgathod na wyddys llawer amdanynt). Gyda chefnogaeth arbenigwr ar degwch cymunedol, hawliau, a diogelwch cymdeithasol Prosiect SIARC, bydd y rôl yn nodi blaenoriaethau cyfranogwyr lleol, yn datblygu a chefnogi ymgysylltiad cymunedol, ac yn cydlynu trafodaethau grwpiau ffocws mewn meysydd allweddol yn rhanbarth Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Mae hyn yn cynnwys gwaith cwmpasu i gyd-ddatblygu ymchwil fiolegol, ymgysylltu ag ysgolion, a gweithgareddau ymgysylltu cymunedol ac ar

yr un pryd hefyd cefnogi gweithrediad fframwaith FAIRER Cymdeithas Sŵolegol Llundain ar gyfer gweithgareddau Prosiect SIARC o fewn rhanbarth Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan ymgeiswyr sydd â phrofiad bywyd o'r cymunedau y mae'r prosiect hwn yn anelu at weithio gyda nhw, gan gynnwys unigolion o gefndiroedd sy'n parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector amgylcheddol a chadwraeth, a'r rhai sydd â chysylltiadau lleol cryf â'r ardal a chymunedau o fewn rhanbarth Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.

Nid oes angen i chi fodloni pob gofyniad a restrir er mwyn gwneud cais.

## Prif gyfrifoldebau

Nid yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddisgrifir yn rhestr gynhwysfawr a gellir neilltuo tasgau ychwanegol o bryd i'w gilydd sy'n unol â lefel y rôl.

1. Meithrin, rheoli, a chynnal cydberthnasau presennol a rhai newydd, gan nodi a mynd ar drywydd cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a grwpiau eraill o fewn rhanbarth Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.
2. Bod yn weladwy a mynychu digwyddiadau lleol i ddysgu am anghenion cymunedau a hyrwyddo cydlyniant cymunedol.
3. Gweithio gyda thîm Prosiect SIARC Cymdeithas Sŵolegol Llundain a Chyfoeth Naturiol Cymru, partneriaid lleol, a chyfranogwyr perthnasol (e.e. cymuned pysgotwyr leol, grwpiau cymunedol arfordirol, ysgolion, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (CBEEMS) ac ati) i ddiffinio a llunio gweithgareddau.
4. Gan ddefnyddio egwyddorion a dulliau gwyddorau cymdeithasol, cynnal ymchwil wrth ddesg ac ymchwil maes i ddeall buddiannau lleol ym Mhrosiect SIARC a'r

amgylchedd morol – gan nodi buddiannau, blaenoriaethau, rhwystrau i ymgysylltu, a datrysiadau posibl i'r rhwystrau a nodwyd.

5. Gweithio gyda thîm Prosiect SIARC Cymdeithas Sŵolegol Llundain a Chyfoeth Naturiol Cymru, partneriaid lleol, a chyfranogwyr perthnasol (e.e. cymuned pysgotwyr leol, grwpiau cymunedol arfordirol, ysgolion, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (CBEEMS) ac ati) i helpu i bennu lleoliadau gweithgareddau blaenoriaeth yn y dyfodol a chyd-ddylunio syniadau ar gyfer gweithgareddau'r prosiect.
6. Cefnogi'r gwaith o gyflawni camau gweithredu Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin perthnasol, gan gysylltu â chynllun rheoli'r Safle Morol Ewropeaidd, trwy gyfnewid gwybodaeth, rhannu a chydweithio â swyddog y Safle Morol Ewropeaidd.
7. Bod yn gyfrifol am drefnu, rheoli, a chyflwyno cyfarfodydd prosiect perthnasol, gweithdai, a thrafodaethau grwpiau ffocws cymunedol, gan gynnwys paratoi deunyddiau, cynllunio logisteg, a chymryd cofnodion.
8. Bod yn gyfrifol am weithredu mesurau diogelu amgylcheddol a chymdeithasol FAIRER Cymdeithas Sŵolegol Llundain perthnasol yn lleol ar y cyd ag arbenigwyr technegol e.e. mapio cymunedol a chytundebau cydsyniad rhydd ar sail gwybodaeth ymlaen llaw.
9. Cefnogi'r gwaith o hysbysebu a chyflwyno mecanwaith adborth a chwynion Prosiect SIARC.
10. Cefnogi'r gwaith o lunio adroddiad(au) ar y prosiect, cynigion ariannu, adnoddau, ac negeseuon sy'n cyfathrebu (e.e. adroddiadau i'r cyhoedd, blogiau, cynnwys cyfryngau cymdeithasol).
11. Cynrychioli Prosiect SIARC ar weithgorau, rhwydweithiau, fforymau, a chynadleddau perthnasol.
12. Cefnogi rheolwyr y prosiect i olrhain gweithgareddau'r prosiect i sicrhau y cyflawnir yr hyn y gellir ei gyflawni yn unol â'r contract grant, y cynllun gwaith, a'r gyllideb a bydd yn rhannu'r wybodaeth â'r arbenigwr ar degwch cymunedol, hawliau, a diogelwch cymdeithasol.

13. Cynnal dealltwriaeth gyfredol am ddeddfwriaeth gwrth-wahaniaethu yng Nghymru a phynciau ac iaith berthnasol sy'n ymwneud â chyfiawnder, cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant a chymryd rhan weithredol o fewn Prosiect SIARC i roi hyn ar waith er mwyn bodloni gofynion statudol.
14. Gweithio gyda chydweithwyr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant arbenigol CNC i nodi cyfleoedd dysgu, technegau newydd a chyfleoedd rhannu gwybodaeth, yn enwedig mewn perthynas â gwaith ar y Datganiad Ardal Morol.

Bydd deiliad y swydd yn cael cefnogaeth, mentora, iad parhaus a'i fentoen FAIRER Cymdeithas Sŵolegol Llundain a rheolwyr llinell.

## Manyleb y person

| Profiad | |
|---|---|
| Hanfodol | - Profiad o feithrin cydberthnasau, meithrin ymddiriedaeth, a gweithio gyda chyfranogwyr, a'r rhaid sy'n gwneud penderfyniadau amrywiol, gan gynnwys o bell.<br>- Wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant o fewn prosiectau a phartneriaethau aml-gydweithredol.<br>- Profiad o ddylunio a chynnal gweithdai, hyfforddiant, digwyddiadau, neu weithgareddau cymunedol.<br>- Wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd sy'n ymwybodol o ddiwylliannau a/neu brofiad o bontio diwylliannol a bod yn sensitif i ddiwylliannau.<br>- Profiad o ymdrin â materion cymhleth a'u cyfathrebu'n effeithiol ac yn amserol. |

| | | |
|---|---|---|
| Dymunol | • | Profiad blaenorol o weithio yn rhanbarth Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.<br>• Gallu amlwg i ymgorffori egwyddorion tegwch, amrywiaeth, a chynhwysiant wrth gyflawni prosiectau neu weithgareddau.<br>• Profiad blaenorol o greu amgylcheddau gwaith a diwylliannau lle gall pawb deimlo'n ddiogel, a lle mae gwerthoedd megis bod yn gynhwysol ac amrywiaeth yn cael eu cofleidio.<br>• Profiad o drefnu mentrau dan arweiniad y gymuned a thrafodaethau grwpiau ffocws neu weithdai cyfranogol.<br>• Unrhyw brofiad o fewn llywodraeth leol ac yn y sectorau gwirfoddol, ffydd a chymunedol.<br>• Profiad blaenorol ym maes adnoddau dynol, y gyfraith, gwaith cymdeithasol, addysgu, hawliau lles neu waith ieuenctid.<br>• Yn gyfarwydd ag offer a phrosesau diogelu amgylcheddol a chymdeithasol neu â phrofiad ohonynt.<br>• Profiad o reoli ac ymateb i bryderon, adborth, neu gwynion drwy fecanwaith adborth a chwynion cyflogaeth.<br>• Profiad o gyfathrebu gwyddoniaeth. |
| Gwybodaeth a sgiliau | | |
| Hanfodol | • | Gallu sylfaenol i gyfathrebu yn y Gymraeg (e.e. ynganu enwau lleoedd, cyfarchion sylfaenol, sgyrsiau bychain).<br>• Y gallu i gynllunio a chyflawni logisteg digwyddiadau a/neu gydlynu rhwydweithiau aml-randdeiliaid neu gyfarfodydd/gweithgareddau partneriaeth.<br>• Y gallu i hwyluso trafodaethau a syntheseiddio gwahanol syniadau a safbwyntiau.<br>• Sgiliau cyfathrebu (ysgrifenedig a llafar) a rhyngbersonol rhagorol, a’r gallu i gyfleu syniadau cymhleth ac addasu iaith i |

| | |
|---|---|
| | gynulleidfaoedd amrywiol (e.e. trwy adroddiadau technegol, cyfryngau cymdeithasol ac ati).<br>• Sgiliau trefnu rhagorol a sylw ir fanylion, profiad o gadw cofnodion, a hunangymhelliant.<br>• Sgiliau rheoli amser cryf, gan gynnwys y gallu i ymateb yn gyflym i alwadau, blaenoriaethu a chwrdd â therfynau amser<br>yn effeithiol, a gweithio mewn amgylchedd cyflym.<br>• Yn gallu llywio sgyrsiau heriol sy’n cynnwys safbwyntiau, blaenoriaethau, neu syniadau a all fod yn wahanol.<br>• Yn hyderus iawn wrth ddefnyddio pecynnau MS Office a thrin<br>data, yn benodol Excel a PowerPoint neu becynnau |
| Dymunol | □ Hyder wrth gyfathrebu yn y Gymraeg (e.e. gallu cynnal sgwrs<br>yn Gymraeg) neu'n rhugl yn y Gymraeg.<br>□ Dealltwriaeth dda o faterion cadwraeth morol, arfordirol, ac aberol perthnasol yng Nghymru.<br>□ Meddu ar radd ym maes gwyddor gymdeithasol neu faes cysylltiedig (e.e. astudiaethau datblygu, cwnsela a gwasanaethau cymdeithasol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, tegwch a chynhwysiant o ran hil, neu debyg).<br>□ Dealltwriaeth o brosesau rheoli prosiect.<br>□ Profiad o ddefnyddio meddalwedd mapio gofodol.<br>□ Profiad o ddadansoddi a chyflwyno data ansoddol.<br>□ Sgiliau monitro a gwerthuso, gan gynnwys defnyddio arolygon<br>ac offer adborth. |

| Gofynion ychwanegol | |
| --- | --- |
| Hanfodol | • Trwydded yrru lawn a'r gallu i deithio'n annibynnol ac yn brydlon.<br>• Mae'r swydd hon yn swydd llawn amser (37.5 awr). Bydd y swydd hon yn gofyn am waith achlysurol y tu allan i oriau gwaith (9am i 5.30pm), o ddydd Llun i ddydd Gwener (dechrau'n gynnar, gorffen yn hwyr, a gwaith achlysurol gyda'r nos/penwythnos, disgwylir iddo fod tua un diwrnod yn ystod penwythnos bob chwe wythnos). Mae gennym hyblygrwydd o ran oriau gwaith a diwrnodau gwaith i gyd-fynd orau â gofynion deiliaid y swyddi. Cymerir amser o'r gwaith yn lle unrhyw amser ychwanegol a weithir.<br>• Bydd y swydd hon wedi'i lleoli gartref yn ne Cymru a gellir defnyddio swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>• Mae'r swydd hon yn cynnwys teithio sylweddol yng Nghymru.<br>• Bydd angen teithio i Lundain o bryd i'w gilydd.<br>• Ymrwymiad i genhadaeth a gwerthoedd Cymdeithas Sŵolegol Llundain, yn enwedig tegwch, amrywiaeth, cynhwysiant, a mesurau diogelu FAIRER. Mae hyn yn cynnwys cynnal polisïau diogelu a chod ymddygiad Cymdeithas Sŵolegol Llundain i sicrhau amgylchedd diogel i bawb y mae'r prosiect yn ymgysylltu â nhw.<br>• Ymrwymiad i hunanddatblygiad proffesiynol, trwy gymryd rhan mewn hunanastudio a hyfforddiant yn ôl yr angen i gyflawni'r rôl.<br>• Meithrin a chynnal cydberthynas gyda rhwydwaith eang o gyfranogwyr perthnasol, gan gynnwys cymunedau ffocws, grwpiau lleol, busnesau, llunwyr polisi a sefydliadau eraill, i gynnal a chefnogi ymgysylltiad a gweithredu. |

| | |
|---|---|
| | • Gallai'r gwaith olygu gorfod delio â gwrthdaro a materion dadleuol neu wleidyddol sensitif.<br>• Gallai'r gwaith olygu gorfod ymdrin â phynciau sensitif sy'n croestorri â phrofiadau bywyd deiliad y rôl.Ar yr adegau hyn, bydd angen i ddeiliad y rôl allu codi hyn fel y gall y arbenigwr ar degwch cymunedol, hawliau, a diogelwch cymdeithasol, rheolwr rhaglen FAIRER Cymdeithas Sŵolegol Llundain, ac Adnoddau Dynol ddarparu digon o gefnogaeth, yn ôl yr angen.<br>• Mae hyblygrwydd yn bwysig; mae angen i ddeiliad y swydd allu ymateb i flaenoriaethau sy'n newid ac anghenion y gymuned yn ôl yr angen. |

**Canllawiau ar gyfer ceisiadau**

Yn ystod y broses ymgeisio, gofynnir i chi ddarparu amlinelliad o brofiadau perthnasol, CV a llythyr eglurhaol. Gofalwch eich bod yn nodi sgiliau a phrofiadau sy'n berthnasol i'r meini prawf a amlinellir yn adran 'Manyleb Person' y disgrifiad swydd drwy eich CV. Yn eich llythyr eglurhaol dylech hefyd gynnwys:

- Diddordebau neu brofiadau perthnasol y byddech chi'n eu defnyddio i weithio gydag actorion a phartneriaid lleol yn ardal Bae Caerfyrddin a’r Aberoedd
- Buddiannau perthnasol yn arfordir, môr a/neu aberoedd Cymru
- Buddiannau perthnasol mewn meithrin ffyrdd cynhwysol o weithio
- Buddiannau neu brofiadau perthnasol o weithio mewn cydweithrediad
- Unrhyw ddyheadau y teimlwch yr hoffech eu harchwilio drwy'r rôl hon

**Gwybodaeth allweddol ychwanegol:**

**Ble mae ardal Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ?**

Pan ddywedwn 'ardal Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd' neu 'CBAE' rydym yn cyfeirio at yr ardal arfordirol a mewndirol gyfagos o Ddinbych-y-pysgod i Trwyn Oxwich (Gŵyr). Mae

hyn yn cynnwys lleoedd fel Pentywyn, Caerfyrddin, Porth Tywyn, Pen-bre, Llanelli a chymunedau mewndirol arfordirol a lleol eraill sydd yn y cyffiniau. Er mwyn cael map, gweler Hafan | Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd.

**Cyflog:** £29,173

**Cyfnod y contract a dyddiad cychwyn:** Contract Tymor Penodol (yn ddelfrydol) yn dechrau 14 Medi 2026, ac yn dod i ben ar 31 Awst 2027.

**Lleoliad:** Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod wedi'i leoli yn ardal Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, ni fydd darpariaethau ar gyfer talu cost adleoli.

**Y broses gyfweld:** Cynhelir y cyfweliadau ar 6 Awst, y lleoliad a ragwelir yw Swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru yn Cross Hands – os na fyddwch yn gallu mynychu'n bersonol bydd opsiwn i gyfweld drwy Teams. Bydd cwestiynau cyfweliad a/neu ganllawiau ar weithgareddau cyfweliad yn cael eu rhannu ymlaen llaw.

**Hyfforddiant:** Fel rhan o'r broses sefydlu, bydd holl weithwyr ZSL yn derbyn hyfforddiant gorfodol sylfaenol mewn perthynas â themâu fel iechyd a diogelwch, GDPR a rheoli data. Mae holl weithwyr Prosiect SIARC hefyd yn derbyn hyfforddiant ar Ddiogelwch Amgylcheddol a Chymdeithasol ZSL FAIRER. Nid oes angen i chi fodloni holl ofynion y rôl i wneud cais.

**Gwiriadau:** Mae'r rôl hon yn amodol ar wiriadau cyn-gyflogi safonol, gan gynnwys hawl yr ymgeisydd i weithio yn y DU. Noder, gan fod y swyddi hyn wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, bydd angen gwiriad Datgeliad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus.

**Oes gennych chi ymholiad pellach?** Cysylltwch â Phrosiect SIARC yn siarc@zsl.org

# Project SIARC Community Officer

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Job level** | Professional Level 1 (Framework level 3) | **Reports to** | Community Equity, Rights and Social Safeguards Specialist – Project SIARC |
| **Directorate** | Conservation and Policy (ZSL) / Marine Service (NRW) | **Function** | Aquatic Species and Policy (ZSL) / All Wales Marine Advice |
| **Contract** | Full time - Fixed term contract until 31 August | **Location** | Wales (Homeworker – based in south Wales and working across the Carmarthen Bay and Estuaries region, this role will be seconded from ZSL to Natural Resources Wales) |

## Responsibility for resources

| | |
|---|---|
| **Direct line reports** | No |
| **Financial resources** relevant | The post holder will support administration of<br><br>budgets within Project SIARC working with |
| **Responsibility for other resources** | *Safeguarding*<br>• Support the implementation of ZSL's FAIRER framework (ZSL's internal Environmental and Social Management System) in collaboration with Project SIARC's Community Equity, Rights and Social Safeguards Specialist and ZSL's FAIRER Programme Manager<br>• Promoting and upholding ZSL's safeguarding standards |

| | |
|---|---|
| | *Confidentiality*<br><br>• In carrying out the duties of this post, the post holder may be privy to sensitive information relating to the project, and therefore will be required to maintain confidentiality at all times<br><br>*GDPR*<br>• This role will handle individuals personal data and will be expected to uphold GDPR compliant ways of working. |

## Our vision and mission

This role will be employed by ZSL (the Zoological Society of London) and seconded to Natural Resources Wales (NRW). The role will work full time on Project SIARC and be based in the Carmarthen Bay and Estuaries (CBAE) Region. While this role will be primarily embedded within Project SIARC, the role holder will also sit within ZSL's global FAIRER conservation team alongside the Project SIARC Community Equity, Rights and Social Safeguards Specialist.

**ZSL**

The Zoological Society of London (ZSL) is an international conservation charity, driven by science, working to restore wildlife in the UK and around the world. Our vision is a world where wildlife thrives and every role, every person in every corner of ZSL has one thing in common – we are all conservationists, and passionate about restoring wildlife.

**NRW**

NRW is a Welsh Government Sponsored Body. NRW’s purpose is to pursue sustainable management of natural resources in relation to Wales, and apply the principles of sustainable management of natural resources, in the exercise of its functions.

**Project SIARC**

Project SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) works towards a Vision that threatened sharks, skates and rays and diverse coastal communities benefit from an inclusive approach to marine conservation and research in Wales. Project SIARC is led by ZSL and Natural Resources Wales (NRW), and completed in partnership with Delivery Partners, Affiliates and Collaborators. Together, we work with coastal communities around Wales, including commercial and recreational fishers, citizen scientist volunteers, primary schools, and researchers. Using money raised by National Lottery Players, the National Lottery Heritage Fund supports projects that connect people and communities with the UK’s heritage. Project SIARC is made possible with The National Lottery Heritage Fund and Welsh Government’s Nature Networks Fund.

**ZSL FAIRER**

ZSL is committed to a fairer approach to conservation through its FAIRER (Fair, Accountable, Inclusive, Respectful, Ethical and Reflective) conservation programme. The conservation framework is a new iteration or alternative model of traditional environmental and social management system (ESMS). Through the FAIRER programme, we aim to better deliver conservation impact whilst safeguarding and centring the local communities, people, and places with which we work, alongside building the values and reflexivity required to deliver FAIRER approaches.

## Purpose of the role

This is a fixed term position until 31 August 2027 and will primarily involve multi-sectoral working to better understand the values and perceptions of communities in the CBAE region towards the marine environment (including little understood species of shark, skate and ray). Supported by the Project SIARC Community Equity, Rights and Social Safeguards Specialist the role will identify local actor priorities, develop and support community engagement and coordinate focus group discussions in key areas in the CBAE region. This includes scoping work to co-develop biological research, school engagement, and community engagement activities while also supporting the implementation of ZSL's FAIRER framework for Project SIARC activities within the CBAE region.

We are particularly keen to hear from applicants who bring lived experience of the communities this project aims to work with, including people from backgrounds that remain underrepresented in the environmental and conservation sector, and those with strong local connections to the area and communities within the CBAE region. You do not need to meet every requirement listed to apply.

## Key responsibilities

The duties and responsibilities described are not a comprehensive list and additional tasks may be assigned from time to time that are in line with the level of the role.

1. Build, manage and maintain both existing and new relationships, identifying and pursuing opportunities to work in partnership with other organisations and groups within the CBAE region.

2. Be visible and attend local events to learn about community needs and promote community cohesion.
3. Work with the ZSL & NRW Project SIARC team, local partners and relevant actors (e.g. local fisher community, coastal community groups, schools, the Carmarthen Bay and Estuaries European Marine Site (CBEEMS) Officer etc.) to define and shape activities.
4. Utilising social science principles and approaches, undertake desk- & field-based research to understand local interests in Project SIARC and the marine environment - identifying interests, priorities, barriers to engagement and possible resolutions to identified barriers.
5. Work with the ZSL & NRW Project SIARC team, local partners, and relevant actors (e.g. local fisher community, coastal community groups, schools, the Carmarthen Bay and Estuaries European Marine Site (CBEEMS) Officer etc.) to help determine future priority activity locations and co-design project activity ideas.
6. Support the delivery of relevant CBEEMS site actions, linking to the CBEEMS Management Scheme, through knowledge exchange, sharing and collaboration with the CBEEMS Officer.
7. Responsible for organisation, management and delivery of relevant project meetings, workshops and community focus group discussions, including preparing materials, planning logistics and taking minutes.
8. Responsible for implementing relevant ZSL FAIRER Environmental and Social Safeguards locally together with technical specialists e.g. community mapping & Free Prior Informed Consent Agreements.
9. Supports advertisement and delivery of Project SIARC's feedback and Grievance Mechanism.
10. Support drafting of project report(s), funding bids, resources and communications outputs (e.g. public facing reports, blogs, social media content).
11. Represents Project SIARC on relevant working groups, networks, forums and conferences.

12. Supports project managers in tracking project activities to ensure that deliverables are achieved according to the grant contract, work-plan and budget and will report this to the Community Equity, Rights and Social Safeguards Specialist.
13. Maintains an up-to-date knowledge of anti-discriminatory legislation in Wales and relevant Justice, Equity, Diversity and Inclusion related topics and language and takes an active role within Project SIARC to translate this into practise to meet statutory requirements.
14. Works with NRW EDI specialist colleagues to identify learning opportunities, new techniques and information sharing, particularly in relation to work on the Marine Area Statement

The post holder will receive ongoing support, mentoring and guidance through ZSL's FAIRER programme and line management.

## Person Specification

| Experience | |
|---|---|
| Essential | • Experience of fostering relationships, building trust and working with diverse actors and decision makers, including remotely.<br>• Committed to working in a way which promotes equity and inclusion within projects and multi-collaborative partnerships.<br>• Experience designing and running community workshops, training, events or activities.<br>• Committed to working in a culturally conscious way and/or experience using cultural bridging and sensitivity.<br>• Experience of dealing with complex matters and communicating them effectively and in a timely manner. |

| | |
|---|---|
| Desirable | - Prior experience working in the CBAE region.<br>- Proven ability to embed equity, diversity and inclusion principles in project or activity delivery.<br>- Prior experience creating working environments and cultures where everyone can feel safe, and inclusive values and diversity are embraced.<br>- Experience organising community-led initiatives and focus group discussions or participatory workshops.<br>- Any experience gained within local government and in voluntary, faith and community sectors.<br>- Previous experience in human resources, law, social work, teaching, welfare rights or youth work.<br>- Prior familiarity or experience with environmental and social safeguarding tools and processes.<br>- Experience with managing and responding to concerns, feedback or complaints through a Feedback and Grievance Mechanism.<br>- Science communication experience. |
| **Knowledge and skills** | |
| Essential | - Basic ability of communicating in Welsh language (e.g. pronunciation of placenames, basic greetings, small conversations).<br>- Ability to plan and deliver event logistics and/or coordinate multi-stakeholder networks or partnership meetings/activities.<br>- Ability to facilitate discussions and synthesise different ideas and perspectives.<br>- Excellent communication (both written and oral) and interpersonal skills, with the ability to communicate complex ideas and adapt language to varied audiences (e.g. via technical reports, social media etc.).<br>- Excellent organisational skills with strong attention to detail, record keeping experience and self-motivation. |

| | |
|---|---|
| | - Strong time management skills, including the ability to respond quickly to demands, effectively prioritise and meet deadlines, and work in a fast-paced environment.<br>- Can navigate challenging conversations where viewpoints, priorities or ideas may differ.<br>- Highly confident in using MS Office packages and data handling, specifically Excel and PowerPoint or equivalent software packages.<br>- An interest in the Welsh marine, coastal and estuarine environment. |
| Desirable | - Confidence in communicating in Welsh language (e.g. able to hold a conversation in Welsh) or fluent in Welsh language.<br>- A good grasp of relevant marine, coastal and estuarine conservation issues in Wales.<br>- A degree in social science or related field (e.g. development studies, counselling and social services, EDI, racial equity and inclusion, or other).<br>- An understanding of project management processes.<br>- Experience with spatial mapping software.<br>- Experience with qualitative data analysis and presentation.<br>- Monitoring and evaluation skills, including use of surveys and feedback tools.<br>- Budget management skills.<br>- Demonstrate conflict-resolution skills. |
| Additional requirements | |
| Essential | - A full driving licence and the ability to travel independently and in a timely manner.<br>- This post is Full Time (37.5 hours). This post will require occasional work outside of 09:00 – 17:30, Monday – Friday work hours (early starts, late finishes and occasional evening/weekend work, expected to be c. 1 day during a weekend in 6). We have flexibility |

| | |
|---|---|
| | in working hours and working days to best suit the post holders requirements. Any extra time worked will be taken in-lieu.<br>- This position will be home based in south Wales with optional use of an NRW office.<br>- This post involves considerable travel in Wales.<br>- Occasional travel to London will be required.<br>- Commitment to ZSL's mission and values, especially equity, diversity, inclusion and FAIRER safeguards. This includes upholding ZSL's safeguarding policies and Code of Conduct to ensure a safe environment for all those the project engages with.<br>- A commitment to professional self-development, through participation in self-learning and training as necessary to carry out the role.<br>- Build and maintain relationships with a wide network of relevant actors, including focal communities, local groups, businesses, policy makers and other organisations to maintain and support engagement and action.<br>- The work may involve dealing with conflict and controversial or politically sensitive issues.<br>- The work may involve dealing with sensitive topics that intersect with lived experiences of the role holder. On these occasions, the role holder will need to be able to raise this so that ample support can be provided from the Community Equity, Rights and Social Safeguards Specialist, ZSL FAIRER Programme manager and HR, as required.<br>- Flexibility is important; the post holder needs to be able to respond to changing priorities and community needs as required. |

**Guidance for applications**

In the application process you will be asked to provide an outline of relevant experiences, a CV and a cover letter. Please ensure that through your CV you specify skills and experiences which are relevant to the criteria outlined in the 'Person Specification' section of the job description, in your cover letter ensure you should also cover:

- Relevant interests or experiences that you would apply to working with local actors and partners in the CBAE region
- Relevant interests in the coast, sea and/or estuaries of Wales
- Relevant interests in fostering inclusive ways of working
- Relevant interests or experiences of working in collaboration
- Any aspirations that you feel you would like to explore through this role

**Additional key information:**

**Where is the CBAE region?**

When we say 'Carmarthen Bay and Estuaries region' or 'CBAE' we are referring to the coastal and nearby inland area from Tenby to Oxwich point (Gower), this includes places like Pendine, Carmarthen, Burry Port, Pembrey, Llanelli and other surrounding coastal and local inland communities which are in the vicinity. For a map, see Home | Carmarthen Bay and Estuaries European Marine Site.

**Salary:** £29,173

**Contract period and start date:** Fixed Term contract (ideally) starting 14 September 2026, ending August 31st 2027.

**Location:** The successful candidate will need to be based in the CBAE Region, there will not be provisions for covering the cost of relocation.

**Interview process:** Interviews will take place on 6th August, the envisioned venue is the Natural Resources Wales Offices in Cross Hands – should you not be able to attend in person there will be an option to interview via Teams. Interview questions and/or guidance on interview activities will be shared in advance.

**Training:** As part of induction all ZSL employees will receive basic mandatory training in relation to themes such as health and safety, GDPR and data management. All Project SIARC employees also receive training on ZSL FAIRER Environmental and Social Safeguards. You do not need to meet all requirements of the role to apply.

**Checks:** This role is subject to standard pre-employment checks, including the candidate's right to work in the UK. Please note that, as these posts are exempt from the Rehabilitation of Offenders Act 1974, a satisfactory Disclosure and Barring Service (DBS) Disclosure check will be required for the successful candidate.

**Do you have a further query?** Contact Project SIARC at siarc@zsl.org